Mae'r daflen hon yn cynnwys y cwestiynau rydych yn fwyaf tebygol o'u gofyn ynglyn â'ch cyfrif banc os cewch eich gwneud yn fethdalwr.

Sut fydd methdaliad yn effeithio ar fy nghyfrif banc?

Pan gaiff y gorchymyn methdaliad ei wneud, dylech:

- ar unwaith roi'r gorau i ddefnyddio'ch llyfr sieciau a'ch cardiau banc; a'u
- rhoi i'r derbynnydd swyddogol cyn gynted â phosibl.

Fel rheol caiff eich holl gyfrifon banc eu 'rhewi' gan y banc pan ddaw i wybod am y gorchymyn methdaliad. Felly bydd angen i chi wneud trefniadau gwahanol ar gyfer derbyn arian i mewn i'ch cyfrif a thalu archebion sefydlog, debydau uniongyrchol, etc. Ni ddylech geisio agor cyfrif banc newydd cyn i'r gorchymyn methdaliad gael ei wneud, oherwydd bydd y cyfrif hwnnw hefyd yn cael ei rewi.

Gall rhai banciau ganiatáu i chi gadw'ch cyfrif banc presennol. Ond hyd yn oed os bydd eich banc yn cytuno i wneud hynny, bydd yn rhewi'r cyfrif pan ddaw i wybod gyntaf am y gorchymyn methdaliad.

A fyddaf yn colli'r arian sydd yn fy nghyfrif banc?

Bydd unrhyw arian sydd yn eich cyfrif ar ddyddiad y gorchymyn methdaliad yn ased yn y methdaliad. Felly bydd yn cael ei hawlio gan y derbynnydd swyddogol neu'r

ymddiriedolwr (os bydd ymarferydd ansolfedd wedi ei benodi yn lle'r derbynnydd swyddogol). Fodd bynnag, gall y derbynnydd swyddogol neu'r ymddiriedolwr ryddhau rhywfaint o arian i chi ar gyfer costau angenrheidiol y cartref.

Os bydd y cyfrif banc mewn enwau ar y cyd, bydd y derbynnydd swyddogol neu'r ymddiriedolwr yn penderfynu faint o'r arian i'w ryddhau i ddeiliad y cyfrif ar y cyd.

Beth sy'n digwydd os byddaf yn gorgodi o fy nghyfrif banc?

Mae'r arian sy'n ddyledus i'r banc yn ddyled yn y methdaliad. Felly rhaid i chi beidio â rhoi unrhyw daliadau'n uniongyrchol yn y banc, oni fydd ganddo arwystl (math o sicrwydd i warantu talu dyled, megis morgais) ar eich cartref. Os yw eich cyfrif banc mewn enwau ar y cyd, gall y banc ofyn i ddeiliad y cyfrif ar y cyd dalu'r holl arian sy'n ddyledus.

A allaf agor cyfrif banc newydd?

Ar ôl y gorchymyn methdaliad, gallwch agor cyfrif newydd mewn banc neu gymdeithas adeiladu, ond dylech ddweud wrthynt eich bod yn fethdalwr. Y banc neu'r gymdeithas adeiladu sy'n penderfynu a fydd yn caniatáu i chi ddefnyddio cyfrif banc, a gall osod amodau a therfynau. Ni ddylech gael unrhyw gyfleusterau gorgodi na chredyd heb ddweud wrth y banc neu'r gymdeithas adeiladu eich bod yn fethdalwr. Rhaid i chi beidio ag ysgrifennu sieciau sy'n debygol o fethu (cael eu gwrthod).

Fel methdalwr, efallai y cewch anhawster i agor cyfrif newydd mewn banc neu gymdeithas adeiladu. Gall rhai banciau ganiatáu i chi barhau i ddefnyddio'ch cyfrif banc presennol ar ôl iddynt gysylltu â'r derbynnydd swyddogol. Os na, efallai y byddwch am wneud cais am 'gyfrif banc sylfaenol'. Mae gwybodaeth am y banciau sy'n cynnig cyfrifon banc sylfaenol i fethdalwyr i'w gweld ar wefan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol yn http://www.moneymadeclear.fsa.gov.uk/pdfs/bank_accounts.pdf.
Mae gan Gyngor ar Bopeth wybodaeth hefyd am gyfrifon banc sylfaenol ar www.adviceguide.org.uk/nm/basic_bank_accounts.pdf.

Os taliadau budd-dal, pensiynau'r wladwriaeth a/neu gredydau treth yn unig yw eich incwm, efallai yr hoffech agor cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post. Cyfrif syml iawn yw hwnnw na ellir ei ddefnyddio i dderbyn unrhyw daliadau eraill fel Budd-dal Tai, budd-daliadau pensiwn galwedigaethol neu gyflog. Mae'r cyfrif yn caniatáu i chi godi arian yn ddi-dâl mewn unrhyw Swyddfa Bost. Gall y cyfrif hwn fod yn addas i chi os byddwch am gael cyfrif syml na fydd yn caniatáu i chi orgodi na thynnu unrhyw gostau. Ni wneir unrhyw archwiliadau credyd pan agorwch y cyfrif hwn. Mae rhagor o fanylion i'w cael yn www.postoffice.co.uk

Un opsiwn arall yw cerdyn debyd wedi'i dalu ymlaen llaw.
Gellir defnyddio'r cardiau hyn yn yr un ffordd â cherdyn debyd neu gredyd arferol, gan gynnwys talu biliau, trosglwyddo arian a thynnu arian allan o beiriant ATM. Nid

oes unrhyw archwiliadau credyd. Gyda cherdyn wedi'i dalu ymlaen llaw, ni allwch wario mwy na'r swm a rowch ar eich cerdyn.

A oes angen i mi ddweud wrth y derbynnydd swyddogol neu'r ymddiriedolwr am fy nghyfrif banc newydd?

Does dim angen i chi ddweud wrth eich derbynnydd swyddogol neu'ch ymddiriedolwr am unrhyw gyfrif newydd ar ôl dyddiad y gorchymyn methdaliad, oni fydd yn gofyn i chi am y wybodaeth honno. Mae angen i chi ddweud wrth y derbynnydd swyddogol neu'r ymddiriedolwr am unrhyw arian yn y cyfrif sy'n fwy nag sydd arnoch ei angen ar gyfer costau byw rhesymol. Gall y derbynnydd swyddogol neu'r ymddiriedolwr hawlio'r symiau sydd dros ben, drwy gyfrwng gorchymyn taliadau incwm (IPO) neu gytundeb taliadau incwm (IPA), i dalu'ch credydwyr. Gall eich ymddiriedolwr wneud cais i'r llys am IPO, sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi dalu cyfraniadau tuag at y dyledion methdaliad o'ch incwm. Ni fydd y llys yn gwneud IPO os byddai hynny'n golygu na fyddai gennych ddigon o incwm yn dod i mewn i dalu'ch costau domestig rhesymol chi a'ch teulu. Neu gallwch wneud cytundeb ysgrifenedig gyda'ch ymddiriedolwr, a elwir yn IPA, i dalu hyn a hyn o'ch incwm i'r ymddiriedolwr am gyfnod wedi ei gytuno. Bydd IPO ac IPA yn para dim mwy na 3 blynedd ar ôl y dyddiad y gwneir y gorchymyn gan y llys neu ddyddiad y cytundeb ysgrifenedig. Os byddwch yn methu cydweithredu, gall yr ymddiriedolwr ymyrryd yn y cyfrif banc.

Ble allaf fi gael cyngor?

Canllaw yn unig yw'r llyfryn hwn. Os bydd gennych ragor o gwestiynau am eich cyfrif banc, holwch eich cynghorydd proffesiynol neu'r ymddiriedolwr sy'n trin eich methdaliad.

Ni all y Gwasanaeth Ansolfedd ddarparu cyngor cyfreithiol nac ariannol. Dylech ofyn am gyngor mewn swyddfa Cyngor Ar Bopeth, gan gyfreithiwr, cyfrifydd cymwysedig, ymarferydd ansolfedd wedi ei awdurdodi, neu gynghorydd ariannol dibynadwy neu ganolfan gynghori.

Ymholiadau cyffredinol a chyhoeddiadau

Gallwch gysylltu â'r Llinell Ymholiadau Ansolfedd ar gyfer ymholiadau cyffredinol am fethdaliad ar 0845 602 9848 neu e-bost: Insolvency.Enquiryline@insolvency.gsi.gov.uk

Gallwch gael rhagor o gopïau o'r cyhoeddiad hwn ar wefan y Gwasanaeth Ansolfedd: www.insolvency.gov.uk

Gallwch hefyd archebu copïau o'n cyhoeddiadau yn rhad ac am ddim gan Linell Archebu Cyhoeddiadau BERR. I wneud hyn, bydd arnoch angen rif cyfeirnod (URN) y ffurflenni angenrheidiol. Mae hwnnw i'w weld ar glawr cefn y taflenni neu ar y wefan.

Ar y teleffon: 0845 015 0010 (codir y gyfradd genedlaethol am alwadau i'r rhif hwn).
Ar e-bost: publications@berr.gsi.gov.uk
Ar ffacs: 0845 015 0020.
Dylai pobl sy'n defnyddio Minicom ffonio 0845 015 0030

Er ein bod wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y llyfryn hwn yn gywir, nid yw'n ddatganiad llawn ac awdurdodol o'r gyfraith. Ni ddylech ddibynnu arno fel y cyfryw. Ni all y Gwasanaeth Ansolfedd dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw wallau neu bethau sydd heb eu cynnwys oherwydd esgeulustra neu fel arall.

***Hawlfraint y Goron 2007**.*

Mae'r wybodaeth yn y llyfryn hwn yn cael ei diogelu gan hawlfraint y Goron.

Gellir atgynhyrchu defnydd hawlfraint y Goron yn ddi-dâl mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng heb fod angen caniatâd penodol. Mae hynny'n amodol ar atgynhyrchu'r defnydd yn gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn ffordd ddifenwol nac mewn cyd-destun camarweiniol. Lle caiff y defnydd ei gyhoeddi neu ei roi i bobl eraill, dylid cydnabod y ffynonellau a'r statws hawlfraint. Pe bae cyfyngiad ar atgynhyrchu, byddai unrhyw fwriad arall i ddefnyddio'r defnydd yn amodol ar gael cymeradwyaeth Uned Llyfrfa Ei Mawrhydi. Dylid gwneud cais i Copyright Unit, HMSO, St Clements House, 2-16 Colegate, Norwich NR3 1BQ. Tel: 01603 621000 Ffacs: 01603 723000.

Nid yw'r caniatâd i atgynhyrchu defnydd hawlfraint y Goron yn cynnwys unrhyw ddefnydd yn y llyfryn hwn a nodir fel hawlfraint trydydd parti. Byddai angen cael awdurdod i atgynhyrchu defnydd felly gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw. I gael rhagor o fanylion am drwyddedu hawlfraint y Goron, gweler yr arweiniad cyfredol yn http://www.hmso.gov.uk/guides.htm a gyhoeddir gan Lyfrfa Ei Mawrhydi.

URN08/762

THE INSOLVENCY SERVICE

www.insolvency.gov.uk

Beth fydd yn digwydd i fy nghyfrif banc?

Gwybodaeth am eich cyfrif banc pan gewch eich gwneud yn fethdalwr

CHARTER MARK

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE

INVESTOR IN PEOPLE